OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2014 Rhif (Cy. )

# TAI, CYMRU

# Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014

**NODYN ESBONIADOL**

(*Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau*)

Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ("Deddf 2013") yn cydgrynhoi darpariaethau presennol mewn perthynas â safleoedd cartrefi symudol preswyl, ac yn gwneud darpariaeth ynglŷn â'r modd y rheolir ac y cynhelir safleoedd cartrefi symudol preswyl yng Nghymru.

Mae Rheoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014 (O.S. 2014/***) ("y Rheoliadau Rheolau Safle") wedi eu gwneud o dan Ddeddf 2013 ac yn cyflwyno seiliau newydd ar gyfer ceisiadau i'r Tribiwnlys Eiddo Preswyl ("y tribiwnlys").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012 ("y Prif Reoliadau") yng ngoleuni Deddf 2013 a'r Rheoliadau Rheolau Safle. Diwygir y Prif Reoliadau i ddiweddaru cyfeiriadau at Ddeddf Cartrefi Symudol 1983 fel eu bod yn cyfeirio at ddarpariaeth gyfatebol yn Neddf 2013. Yn ychwanegol, gwneir darpariaeth mewn perthynas â cheisiadau newydd y caniateir eu gwneud i'r tribiwnlys o dan Ddeddf 2013 a'r Rheoliadau Rheolau Safle.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, paratowyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi o'r Is-adran Polisi Tai, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

# 2014 Rhif (Cy. )

# TAI, CYMRU

## Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *** |
| *Yn dod i rym* | *1 Hydref 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a freiniwyd ynddynt hwy(**1**) gan adran 250(2) o Ddeddf Tai 2004(**2**) ac Atodlen 13 i'r Ddeddf honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 250(6)(g) o'r Ddeddf honno(**3**) mae drafft o'r Rheoliadau hyn wedi ei osod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac wedi ei gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) (Diwygio Rhif 2) 2014 a deuant i rym ar 1 Hydref 2014.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i achosion gerbron tribiwnlysoedd eiddo preswyl ar gyfer

(**1**) Mae'r swyddogaethau a roddwyd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Tai 2004 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30(2)(c) o Atodlen 11 i'r Ddeddf honno.

(**2**) 2004 p. 34.

(**3**) Yr un, neu'r un i raddau sylweddol, yw'r swyddogaeth o wneud rheoliadau o dan Ddeddf Tai 2004 â'r swyddogaeth sy'n arferadwy o ran Lloegr. Mae adran 250(6)(g) o'r Ddeddf honno'n darparu bod rhaid i Reoliadau a wneir yn rhinwedd paragraff 11(3)(b) neu 12(3)(b) o Atodlen 13 i'r Ddeddf honno gael eu gosod gerbron a'u cymeradwyo gan benderfyniad dau Dŷ'r Senedd. Yn rhinwedd paragraff 34(2) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), mae'r ddarpariaeth yn gymwys i arfer y swyddogaeth honno o wneud y rheoliadau gan Weinidogion Cymru, fel pe bai unrhyw gyfeiriad at naill Dŷ'r Senedd neu'r llall yn gyfeiriad at Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

penderfynu ceisiadau mewn perthynas â mangreoedd yng Nghymru.

(3) Mae'r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â cheisiadau a wneir ar neu ar ôl 1 Hydref 2014.

**Diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012**

**2.** Mae Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012(**1**) wedi eu diwygio yn unol â'r Atodlen.

Y Gweinidog Tai ac Adfywio, un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

(**1**) O.S. 2012/531 (Cy. 83).

# YR ATODLEN

Rheoliad 2

*Diwygio Rheoliadau Gweithdrefnau a Ffioedd Tribiwnlys Eiddo Preswyl (Cymru) 2012*

**1.** Yn rheoliad 2—

(a) hepgorer y diffiniad o "Deddf 1983";

(b) yn y man priodol mewnosoder "ystyr "Deddf 2013" ("*the 2013 Act*") yw Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013(**1**);";

(c) yn y diffiniad o "cais"—

(i) ar ddiwedd paragraff (b), hepgorer "neu";

(ii) ym mharagraff (c), yn lle "Deddf 1983" rhodder "Deddf 2013";

(iii) ar ddiwedd paragraff (c), yn lle "," rhodder "; neu"; a

(iv) ar ôl paragraff (c), mewnosoder—

"(ch) y Rheoliadau Rheolau Safle,";

(d) yn y diffiniad o "person â buddiant"—

(i) ym mharagraff (ch), yn lle "o dan Ddeddf 1983" rhodder "o dan Ran 4 o Ddeddf 2013, neu Atodlen 2 i'r Ddeddf honno";

(ii) ym mharagraff (d), yn lle "o dan baragraffau 8 neu 9 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983" rhodder "o dan baragraffau 9 i 13 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013";

(iii) ym mharagraff (dd), yn lle "o dan baragraff 6A(2)(a) neu 6A(2)(b) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983" rhodder "o dan baragraffau 41(1)(a) neu 41(1)(b) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013"; a

(iv) ar ôl paragraff (e), mewnosoder—

"(f) mewn perthynas â chais o dan Ran 2 o Ddeddf 2013, pan fo'n gymwys, perchennog y safle neu reolwr y safle, os nad yw'r person hwnnw'n barti i'r cais;";

(e) yn y diffiniad o "cartref symudol" yn lle "adran 5(1) o Ddeddf 1983" rhodder "adran 60 o Ddeddf 2013";

(f) yn y diffiniad o "meddiannydd" yn lle pob cyfeiriad at "Deddf 1983" rhodder "Deddf

(**1**) 2013 dccc 6.

2013", ac yn lle pob cyfeiriad at "Ddeddf 1983" rhodder "Ddeddf 2013";

(g) yn y diffiniad o "llain" yn lle "ym Mhennod 1 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983" rhodder "yn adran 55 o Ddeddf 2013";

(h) yn y diffiniad o "mangre" yn lle pob cyfeiriad at "Ddeddf 1983" rhodder "Ddeddf 2013";

(i) yn y diffiniad o "safle a ddiogelir" yn lle "adran 5(1) o Ddeddf 1983" rhodder "adran 2(2) o Ddeddf 2013";

(j) yn y diffiniad o "cymdeithas preswylwyr gymwys" yn lle "Rhan 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983" rhodder "adran 61 o Ddeddf 2013";

(k) yn y diffiniad o "perchennog safle" yn lle "adran 5(1) o Ddeddf 1983" rhodder "adran 62 o Ddeddf 2013"; ac

(l) yn y man priodol mewnosoder "ystyr "y Rheoliadau Rheolau Safle" ("*the Site Rules Regulations*") yw Rheoliadau Cartrefi Symudol (Rheolau Safle) (Cymru) 2014(**1**)".

**2.** Yn rheoliad 4(1), yn lle "neu Ddeddf 1983", rhodder ", Deddf 2013, neu'r Rheoliadau Rheolau Safle".

**3.** Yn rheoliad 5—

(a) yn y pennawd, yn lle "o dan Ddeddf 1983" rhodder "o dan Ddeddf 2013"; a

(b) ym mharagraffau (1) a (2), yn lle pob cyfeiriad at "Ddeddf 1983" rhodder "Ddeddf 2013".

**4.** Yn rheoliad 7—

(a) yn y pennawd, yn lle "o dan Ddeddf 1983" rhodder "o dan Ddeddf 2013"; a

(b) ym mharagraff (1), yn lle "o dan Ddeddf 1983" rhodder "o dan Ddeddf 2013".

**5.** Hepgorer rheoliad 11.

**6.** Yn rheoliad 12—

(a) yn y pennawd, yn lle "o dan Ddeddf 1983" rhodder "o dan Ddeddf 2013";

(b) ym mharagraff (1), yn lle "o dan baragraff 5A(2)(a) o Bennod 2, neu baragraff 6(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983" rhodder "o dan baragraff 7(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 40(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013";

(c) ym mharagraff (3)(a), yn lle "o dan baragraff 5A(2)(a) o Bennod 2, neu baragraff 6(1)(a) o

(**1**) O.S. 2014/***

Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983" rhodder "o dan baragraff 7(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 40(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013";

(d) ym mharagraff (3)(b), yn lle "paragraff 5A(4) o Bennod 2, neu baragraff 6(2) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno" rhodder "paragraff 7(3) o Bennod 2, neu baragraff 40(3) o Bennod 4, o Ran 1 o'r Atodlen honno"; ac

(e) ym mharagraff (6)(c), yn lle "o dan baragraff 5A(2)(a) o Bennod 2, neu baragraff 6(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983" rhodder "o dan baragraff 7(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 40(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013".

**7.** Yn rheoliad 14(1)(b), yn lle "o dan Ddeddf 1983" rhodder "o dan Ddeddf 2013".

**8.** Yn rheoliad 21—

(a) ym mharagraff (5), yn lle "o dan baragraffau 4, 5, 5A neu 10 o Bennod 2, neu baragraffau 4, 5, 6 neu 8 o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983" rhodder "o dan baragraffau 5, 6, 7 neu 14 o Bennod 2, neu baragraffau 38, 39, 40 neu 44 o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013"; a

(b) ym mharagraff (7), hepgorer "neu reoliad 11 (ceisiadau brys o dan Ddeddf 1983 mewn perthynas â gwerthu neu roi cartref symudol)".

**9.** Yn rheoliad 22(5), hepgorer "neu reoliad 11 (ceisiadau brys o dan Ddeddf 1983 mewn perthynas â gwerthu neu roi cartref symudol)".

**10.** Yn rheoliad 35, ar ôl paragraff (2) mewnosoder—

> "(3) Mewn perthynas â chais i'r tribiwnlys o dan Ddeddf 2013 neu'r Rheoliadau Rheolau Safle, ni chaiff y swm y caniateir gorchymyn i barti mewn achos ei dalu yn yr achos, drwy benderfyniad a wneir o dan baragraff 12 o Atodlen 13 i Ddeddf 2004, fod yn fwy na £10,000."

**11.** Yn rheoliad 40(5), yn lle "Deddf 1983" rhodder "Deddf 2013".

**12.** Yn rheoliad 45—

(a) ym mharagraff (1) yn lle "£150" rhodder "£155"; a

(b) ym mharagraff (2) yn lle "£150" rhodder "£155".

**13.** Yn rheoliad 46, yn lle "£150" rhodder "£155".

**14.** Yn rheoliad 47—

(a) yn y pennawd, yn lle “o dan Ddeddf 1983” rhodder “o dan Ddeddf 2013”;

(b) hepgorer paragraff (1);

(c) ar ôl paragraff (1), mewnosoder—

“(1A) Yn ddarostyngedig i baragraff (5) a rheoliad 49(2), mae ffi o £155 yn daladwy am gais i dribiwnlys o dan reoliad 10 (hawl i apelio i dribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniad y perchennog) a rheoliad 17 (hawl i apelio i dribiwnlys ynghylch adneuad) o’r Rheoliadau Rheolau Safle.”;

(d) ym mharagraff (2), yn lle “Deddf 1983” rhodder “Deddf 2013”;

(e) yn lle paragraff (2)(a) i (d), rhodder—

“(a) adran 7(4)(b) (trwydded safle: gwrthod dyroddi);

(b) adran 12(2) (amodau trwydded safle: apêl);

(c) adran 14(1) (amrywio amodau trwydded safle: apêl);

(ch) adran 17(2) (hysbysiad cydymffurfio: apêl);

(d) adran 21(9) (camau brys: apêl);

(dd) adran 22(7) (hawlio treuliau: apêl);

(e) adran 28(2) (cais gan awdurdod lleol am ddirymu trwydded safle);

(f) adran 29(6)(b) (person addas a phriodol);

(ff) adran 30(5) (rheolwr interim);

(g) adran 33(4) (gorchymyn ad-dalu);

(ng) adran 49(5) (datganiad ysgrifenedig);

(h) adran 50(2) neu (3) (telerau ymhlyg/datganedig mewn cytundeb safle);

(i) adran 54 (awdurdodaeth tribiwnlys neu’r llys);

(j) paragraffau 5, 6 neu 7 o Bennod 2, neu baragraffau 38, 39 neu 40(1) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 (terfynu);

(l) paragraffau 10 neu 13 o Bennod 2 o Ran 1 o Atodlen 2 (gwerthu neu roi cartref symudol);

(ll) paragraffau 14 o Bennod 2, neu 44 o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 (ail-leoli cartref symudol); ac

(m) paragraff 42(8) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 2 (aseinio cytundeb).”;

(f) ym mharagraff (3)—

(i) yn is-baragraff (a) yn lle "£150" rhodder "£155";

(ii) yn is-baragraff (b) yn lle "£200" rhodder "£205";

(iii) yn is-baragraff (c) yn lle "£400" rhodder "£410"; a

(iv) yn is-baragraff (ch) yn lle "£500" rhodder "£515";

(g) ym mharagraff (4)(a), yn lle "o Ddeddf 1983" rhodder "o Ddeddf 2013"; ac

(h) ym mharagraff (5), yn lle "o dan Ddeddf 1983" rhodder "o dan Ddeddf 2013".

**15.** Yn yr Atodlen—

(a) yn y pennawd uwchben paragraff 50, yn lle "o dan Ddeddf 1983" rhodder "o dan Ddeddf 2013";

(b) ym mharagraff 50—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle "adran 1(6) o Ddeddf 1983 (hawl i gael datganiad ysgrifenedig)" rhodder "adran 49(5) o Ddeddf 2013 (hawl i gael datganiad ysgrifenedig)."; a

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle "adran 1(2) o Ddeddf 1983" rhodder "adran 49(1) o Ddeddf 2013";

(c) ym mharagraff 51—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle "adran 2(2) o Ddeddf 1983 (telerau a grybwyllir yn Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 yn oblygedig)" rhodder "adran 50(2) o Ddeddf 2013 (telerau a grybwyllir yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 yn ymhlyg)"; a

(ii) yn is-baragraff (2), yn lle "Rhan 2 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983" rhodder "Rhan 2 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013";

(d) ym mharagraff 52—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle "adran 2(3)(a) o Ddeddf 1983 (amrywio neu ddileu unrhyw un o delerau datganedig y cytundeb)" rhodder "adran 50(3)(a) o Ddeddf 2013 (amrywio neu ddileu unrhyw un o delerau datganedig y cytundeb)";

(ii) yn is-baragraff (2)(b)(i), yn lle "adran 1(6) o Ddeddf 1983" rhodder "adran 49(5) o Ddeddf 2013"; a

(iii) yn is-baragraff (2)(b)(ii), yn lle "adran 1(6) o Ddeddf 1983" rhodder "adran 49(5) o Ddeddf 2013";

(e) ym mharagraff 53—

(i) yn y pennawd, yn lle “o dan Ddeddf 1983” rhodder “o dan Ddeddf 2013”; a

(ii) yn is-baragraff (1), yn lle “adran 4 o Ddeddf 1983 (penderfynu unrhyw gwestiwn sy’n codi o dan Ddeddf 1983 neu o dan gytundeb y mae’r Ddeddf honno’n gymwys iddo)” rhodder “adran 54 o Ddeddf 2013 (penderfynu ar unrhyw gwestiwn sy’n codi o dan Ran 4 o Ddeddf 2013 neu gytundeb y mae’r Rhan honno’n gymwys iddo)”;

(f) ym mharagraff 54—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “o dan baragraff 5A(2)(a) o Bennod 2, neu baragraff 6(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (penderfyniad gan dribiwnlys ynghylch effaith niweidiol cartref symudol)” rhodder “o dan baragraff 7(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 40(1)(a) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (penderfyniad gan dribiwnlys ynghylch effaith andwyol cartref symudol)”; a

(ii) yn is-baragraff (2)(a), yn lle “o dan baragraff 5A(2) o Bennod 2, neu baragraff 6(1) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno” rhodder “o dan baragraff 7(1) o Bennod 2, neu baragraff 40(1) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno”;

(g) ym mharagraff 55—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “o dan baragraff 4, 5 neu 5A(2)(b) o Bennod 2, neu baragraffau 4, 5 neu 6(1)(b) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (terfynu gan berchennog y safle)” rhodder “o dan baragraffau 5, 6 neu 7(1)(b) o Bennod 2, neu baragraffau 38, 39 neu 40(1)(b) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (terfynu gan berchennog y safle)”;

(ii) yn is-baragraff (2)(b), yn lle “o dan baragraff 4, 5 neu 5A(2) o Bennod 2, neu baragraffau 4, 5 neu 6(1)(b) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno” rhodder “o dan baragraffau 5, 6 neu 7(1) o Bennod 2, neu baragraffau 38, 39 neu 40(1)(b) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno”;

(iii) yn is-baragraff (2)(c), yn lle “o dan baragraff 4 o Bennod 2, neu baragraff 4 o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno” rhodder “o dan baragraff 5 o Bennod 2, neu baragraff 38 o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno”; a

(iv) yn is-baragraff (2)(d), yn lle “o dan baragraff 5A(2) o Bennod 2, neu baragraff 6(1) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno” rhodder “o dan baragraff 7(1) o Bennod 2, neu baragraff 40(1) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno”;

(h) ym mharagraff 56—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “o dan baragraff 8(1E) (gwerthu cartref symudol) neu 9(2) (rhoi cartref symudol) o Bennod 2 a pharagraff 6B(7) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983” rhodder “o dan baragraff 10(3) (gwerthu cartref symudol) neu baragraff 13(3) (rhoi cartref symudol) o Bennod 2 a pharagraff 42(8) o Bennod 4 o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013”;

(ii) yn is-baragraff (2)(a), yn lle “o dan baragraff 8(1A) o Bennod 2, neu baragraff 6B(1) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno” rhodder “o dan baragraff 10(1)(a) o Bennod 2, neu baragraff 42(1) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno”;

(iii) ar ddiwedd is-baragraff (2)(a), mewnosoder “a”;

(iv) yn is-baragraff (2)(b), yn lle “; ac” rhodder “.”; a

(v) hepgorer is-baragraff (2)(c);

(i) ym mharagraff 57—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “o dan baragraff 10(1) o Bennod 2, neu baragraff 8(1) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (adleoli cartref symudol)” rhodder “o dan baragraff 14(1) o Bennod 2, neu baragraff 44(1) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (adleoli cartref symudol)”; a

(ii) yn is-baragraff (2)(c), yn lle “o dan baragraff 10(1) o Bennod 2, neu baragraff 8(1) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno” rhodder “o dan baragraff 14(1) o Bennod 2, neu baragraff 44(1) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno”;

(j) ym mharagraff 58—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “o dan baragraff 10(2) o Bennod 2, neu baragraff 8(2) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (adleoli cartref symudol)” rhodder “o dan baragraff 14(3) o Bennod 2, neu baragraff 44(3) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (adleoli cartref symudol)”; a

(ii) yn is-baragraff (2)(c), yn lle “o dan baragraff 10(2) o Bennod 2, neu baragraff 8(2) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno” rhodder “o dan baragraff 14(3) o Bennod 2, neu baragraff 44(3) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno”;

(k) ym mharagraff 59—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “o dan baragraffau 16(b), 17(4) ac 17(8) o Bennod 2, neu baragraffau 14(b), 15(4) neu 15(8) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (y ffi llain)” rhodder “o dan baragraffau 17(1)(b), 17(6) ac 17(11) o Bennod 2, a pharagraffau 47(1)(b), 47(5) a 47(9) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (y ffi llain)”; a

(ii) yn lle is-baragraff (2), rhodder—

“(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) yr hysbysiad a gyflwynwyd i’r meddiannydd gan berchennog y safle o dan baragraff 17(3) neu (8)(b) o Bennod 2, neu 47(3) neu (7)(b) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno (pa un a’i cyflwynwyd erbyn yr amser sy’n ofynnol o dan y paragraff hwnnw ai peidio); a

(b) unrhyw ddogfen a gyflwynwyd ynghyd â’r cyfryw hysbysiad yn unol â pharagraff 23 o Bennod 2 o Ran 1 o’r Atodlen honno.”;

(l) ym mharagraff 60—

(i) yn is-baragraff (1), yn lle “o dan baragraff 18(1)(a)(iii) o Bennod 2, neu baragraff 16(1)(a)(iii) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 1 i Ddeddf 1983 (y ffi llain)” rhodder “o dan baragraff 18(1)(a)(iii) o Bennod 2, neu baragraff 48(1)(a)(iii) o Bennod 4, o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2013 (y ffi llain)”; a

(ii) yn is-baragraff (2)(ch), yn lle “o dan baragraff 22(e) ac (f) o Bennod 2, neu baragraff 20(f) ac (g) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno” rhodder “o dan baragraff 22(1)(e) ac (f) o Bennod 2, neu baragraff 52(1)(f) ac (g) o Bennod 4, o Ran 1 o’r Atodlen honno”;

(m) hepgorer paragraff 61; ac

(n) ar ôl paragraff 61, mewnosoder—

**“Ceisiadau sy’n ymwneud â phenderfyniad awdurdod lleol i beidio â dyroddi trwydded safle**

**62.**—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 7(4)(b) o Ddeddf 2013 (dyroddi trwydded safle).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o’r hysbysiad o’r penderfyniad i wrthod dyroddi trwydded safle a’r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw, a ddyroddwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 7(4)(a) o Ddeddf 2013;

(b) unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol a roddwyd mewn perthynas â’r safle; ac

(c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy’n ategu’r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw’r awdurdod lleol.

**Ceisiadau sy’n ymwneud ag amodau trwydded safle**

**63.**—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adrannau 12(2) neu 14(1) o Ddeddf 2013 (amodau neu amrywio trwyddedau safle).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o’r drwydded safle ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrthi;

(b) copi o’r Safonau Enghreifftiol a ddyroddir o bryd i’w gilydd gan Weinidogion Cymru; ac

(c) unrhyw ddogfen berthnasol arall sy’n pennu’r rheswm dros osod neu amrywio amod ar drwydded safle.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw’r awdurdod lleol.

**Ceisiadau sy’n ymwneud â hysbysiad cydymffurfio**

**64.**—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 17(2) o Ddeddf 2013 (hysbysiad cydymffurfio).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o’r drwydded safle ac unrhyw amodau sydd ynghlwm wrthi;

(b) copi o’r hysbysiad cydymffurfio; ac

(c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy’n ategu’r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw’r awdurdod lleol.

### Ceisiadau sy’n ymwneud â chamau brys

**65.**—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 21(9) o Ddeddf 2013 (camau brys).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) unrhyw hysbysiadau a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol i berchennog y tir o dan adran 21(3) neu (8) o Ddeddf 2013; a

(b) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy’n ategu’r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw’r awdurdod lleol.

### Ceisiadau sy’n ymwneud â hawliad am dreuliau

**66.**—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 22(7) o Ddeddf 2013 (hawlio treuliau).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) copi o’r hawliad am dreuliau a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol i berchennog y tir o dan adran 22(6) o Ddeddf 2013;

(b) prawf o gollfarn am drosedd o dan adran 18(1), os yw’n briodol;

(c) copi o unrhyw hysbysiadau perthnasol a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol i berchennog y tir o dan adrannau 17(1), 20(2), 21(3) neu (8) o Ddeddf 2013; a

(d) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy’n ategu’r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw’r awdurdod lleol.

### Ceisiadau sy’n ymwneud â dirymu trwydded safle

**67.**—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 28(2) o Ddeddf 2013 (cais am ddirymu trwydded safle).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) unrhyw dystiolaeth o dan adran 29(3) neu (4) y rhoddwyd sylw iddi gan yr awdurdod lleol;

(b) os yw’n gymwys, yr hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 29(6)(a); ac

(c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy’n ategu’r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y safle.

### Ceisiadau sy’n ymwneud â phenderfynu a yw person yn berson addas a phriodol

**68.**—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 29(6)(b) o Ddeddf 2013 (apêl yn erbyn penderfyniad nad yw person yn berson addas a phriodol i reoli safle).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) yr hysbysiad a gyflwynwyd gan yr awdurdod lleol o dan adran 29(6)(a);

(b) unrhyw ddogfennau sy’n cynnwys tystiolaeth o dan adran 29(3) a (4); ac

(c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy’n ategu’r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw’r awdurdod lleol.

### Ceisiadau sy’n ymwneud â rheolwyr interim

**69.**—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 30(5) o Ddeddf 2013 (penodi rheolwr interim).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) unrhyw ohebiaeth berthnasol a roddodd neu a gafodd y ceisydd mewn cysylltiad â phenodi rheolwr interim; a

(b) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy’n ategu’r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw’r awdurdod lleol.

### Ceisiadau sy’n ymwneud â gorchmynion ad-dalu pan fo’r safle heb ei drwyddedu

**70.**—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan adran 33(4) o Ddeddf 2013 (cais am orchymyn ad-dalu pan fo safle heb ei drwyddedu).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) unrhyw dystiolaeth ynglŷn â’r materion a grybwyllir yn adran 33(6);

(b) unrhyw dystiolaeth ynglŷn â’r materion a grybwyllir yn adran 33(9); ac

(c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy’n ategu’r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y safle neu reolwr y safle, yn ôl fel y digwydd.

**Ceisiadau sy’n ymwneud â’r Rheoliadau Rheolau Safle**

**71.**—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan reoliad 10 o’r Rheoliadau Rheolau Safle (hawl i apelio i dribiwnlys mewn perthynas â phenderfyniad y perchennog).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) yr hysbysiad o gynnig a ddyroddwyd o dan reoliad 8;

(b) y ddogfen ymateb i’r ymgynghoriad a ddyroddwyd o dan reoliad 9; ac

(c) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy’n ategu’r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y safle.

**72.**—(1) Mae’r paragraff hwn yn gymwys i gais o dan reoliad 17 o’r Rheoliadau Rheolau Safle (hawl i apelio i dribiwnlys ynghylch adneuad).

(2) Y dogfennau penodedig yw—

(a) y ddogfen ymateb i’r ymgynghoriad a ddyroddwyd o dan reoliad 9; a

(b) unrhyw ddogfennau perthnasol eraill sy’n ategu’r cais.

(3) Yr ymatebydd penodedig yw perchennog y safle.”